At: Swyddogion cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu cydnabyddedig

3 Mehefin 2020

Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol Cymwysterau Cymru ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Heddiw rydym wedi cyhoeddi ein Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol (Amodau, Gofynion a Chanllawiau) a fydd yn aros yn ei le yn ystod pandemig Covid-19.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Ofqual a CCEA Regulation er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb o ran dull â phosibl er mwyn lleihau'r baich ar gyrff dyfarnu yn ystod yr amseroedd digynsail hyn. O ganlyniad mae'r fframwaith rydym wedi'i roi ar waith yn debyg i'r hyn a gyhoeddwyd gan Ofqual a CCEA Regulation, gyda'r eithriad a ganlyn:

- Mae Amod VTQCov2.3 sydd wedi'i gynnwys o fewn fframwaith eithriadol Ofqual wedi'i hepgor o'n fframwaith oherwydd bod ein Amodau'n berthnasol yn unig mewn perthynas â, neu at ddibenion, y dyfarniad yng Nghymru gan gorff dyfarnu. Mae'r holl gyfeiriadau at yr Amod hwn hefyd wedi'u tynnu o'n canllawiau cysylltiedig.

Rydym wedi defnyddio meini prawf tebyg ar draws y tair gwlad i nodi pa gymwysterau sy'n dod o fewn cwmpas ein fframwaith. Mae mwyafrif y cymwysterau o fewn ein cwmpas hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual ac maent wedi'u cynnwys yn yr ymarferiad cwmpasu a wnaed dan arweiniad Ofqual. Lle mae gennym gymwysterau ar gael yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn Lloegr, rydym wedi cysylltu â'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hynny i egluro'r categori a'r lliniaru.

Byddwn yn cyhoeddi rhestr o'r cymwysterau sydd o fewn cwmpas Cymru ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi gweithio gydag Ofqual i alluogi'r cymwysterau hynny yng

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Nghymru yn unig i ymddangos ar yr offeryn egluro cymwysterau y maent wedi'u datblygu i gefnogi dysgwyr a chanolfannau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater uchod, cysylltwch â ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Yn gywir

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio